**CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.**

***THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.***

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 16(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  D R A F F T

---

# 2010 Rhif

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL, CYMRU

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010

*Gwnaed* ***

*Gosodwyd gerbron y Cynulliad* ***

*Yn dod i rym ar 11 Ionawr 2011*

Yn Llys Palas Buckingham, y *** dydd o ***

Yn bresennol,

Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 16(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**a**), cafodd drafft o'r Gorchymyn hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 16(1) a (5) o'r Ddeddf honno, yn ôl cyngor a chyda chyngor Ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010 a daw i rym ar 11 Ionawr 2011.

### Dynodi swyddi sy'n anghymhwyso

**2.** Mae'r swyddi a ddisgrifir yn yr Atodlen wedi eu dynodi'n swyddi sy'n anghymhwyso deiliaid y swyddi hynny rhag bod yn aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Dirymu Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2006

**3.** Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2006(**b**) wedi ei ddirymu.

---

(**a**) 2006 p.32.
(**b**) O.S. 2006/3335.

*Enw*
Clerc y Cyfrin Gyngor

# YR ATODLEN

Erthygl 2

## Swyddi sy'n anghymhwyso deiliaid y swyddi hynny rhag bod yn aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

## RHAN 1

### Cyrff y mae'r aelodau ohonynt wedi eu hanghymhwyso

Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd;

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd neu Food Standards Agency;

Asiantaeth yr Amgylchedd neu Environment Agency;

Yr Awdurdod Ffrwythloni ac Embryoleg Dynol;

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch;

Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain;

Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol;

Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

Awdurdod y Marchnadoedd Nwy a Thrydan;

Bwrdd Adfer Ynys Môn;

Bwrdd Ardollau Cymru neu Welsh Levy Board;

Bwrdd Canolwyr Meddygol a benodwyd gan Weinidogion Cymru(**a**);

Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru;

Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain;

Bwrdd y Gronfa Diogelu Pensiynau(**b**);

Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Genedlaethol Cymru a benodwyd gan Weinidogion Cymru;

---

(**a**) *Gweler* paragraff 3 o Atodiad 2 i'r Cynllun yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1072) a pharagraff 3 o Atodlen 5 i'r Cynllun yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Iawndal y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1073).

(**b**) Ar gyfer darpariaeth ynghylch aelodaeth o'r Bwrdd, *gweler* adran 108 o Ddeddf Pensiynau 2004.

Bwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru a benodwyd gan Weinidogion Cymru;

Bwrdd yr Iaith Gymraeg neu Welsh Language Board;

Y Bwrdd Ystadegau neu'r Statistics Board a sefydlwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007(**a**);

Y Comisiwn Ansawdd Gofal;

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru;

Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu;

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;

Y Comisiwn Cystadlu;

Y Comisiwn Etholiadol neu Electoral Commission;

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru;

Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant;

Comisiwn y Gwasanaethau Post;

Corfforaeth datblygu trefol ar gyfer ardal datblygu trefol sy'n gyfan gwbl yng Nghymru;

Corfforaeth Deledu Channel Four;

Corfforaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol dros Gynilion Cyflogaeth;

Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur;

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru neu General Teaching Council for Wales;

Cyngor Cefn Gwlad Cymru;

Cyngor Celfyddydau Cymru;

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac eithrio aelod sydd hefyd yn gyflogai i'r Cyngor;

Cyngor Chwaraeon Cymru;

Cyngor Gofal Cymru neu Care Council for Wales;

Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd;

Cyngor y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu;

Y Gwasanaeth Cystadlu;

Hybu Cig Cymru neu Meat Promotions Wales;

Panel, a sefydlwyd o dan Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977(**a**), o bersonau i weithredu fel cadeiryddion ac aelodau eraill pwyllgorau asesu rhenti dros ardal neu ardaloedd y mae pob rhan ohoni neu ohonynt yng Nghymru;

---

(**a**) 2007 p.18.

Y Panel Annibynnol ar gyfer Cwynion am Wasanaethau Cymdeithasol;

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;

Y Panel Apelio Annibynnol ar gyfer Ffermwyr;

Panel Dyfarnu Cymru neu Adjudication Panel for Wales;

Partneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod;

Pwyllgor a sefydlwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau o dan adran 9 o Ddeddf Pensiynau 2004(**b**);

Y Pwyllgor Cynghori ar Enseffalopathi Sbyngffurf;

Y Pwyllgor Cymrodeddu Canolog;

Pwyllgor Ymgynghorol Cymru yr Asiantaeth Safonau Bwyd;

Y Rheoleiddiwr Pensiynau;

Sianel Pedwar Cymru;

Y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Lleol;

Y Swyddfa Gyfathrebiadau;

Y Swyddfa Masnachu Teg;

Tribiwnlys a gyfansoddwyd o dan adran 27 o Ddeddf Addysg 2005 ac Atodlen 3 iddi(**c**);

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru;

Y Tribiwnlys Apelau Cystadlu;

Y Tribiwnlys Haen Gyntaf;

Tribiwnlys Prisio Cymru;

Tribiwnlys Tir Amaethyddol;

Tribiwnlys y cyfeirir ato ym mharagraff 10 o Atodlen 26 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**d**);

Unrhyw aelod o'r Gronfa Loteri Fawr a benodwyd o dan baragraff 1 o Atodlen 4A i Ddeddf y Loteri Genedlaethol Etc. 1993(**ch**) neu o bwyllgor a sefydlwyd o dan baragraff 7(1)(b) o'r Atodlen honno;

Ymddiriedolaeth y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig;

Yr Uwch Dribiwnlys.

---

(**a**) 1977 p.42. Bu diwygiadau i Atodlen 10 i'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**b**) 2004 p.35. Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi ei sefydlu gan adran 1 o'r Ddeddf,
(**c**) 2005 p.18. Bu diwygiadau i Atodlen 3 i'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**d**) 1998 p.31. Bu diwygiad perthnasol i baragraff 10(2) o Atodlen 26 i'r Ddeddf gan adran 53 o Ddeddf Addysg 2005 a pharagraffau 8, 16(1) a (4) o Ran 2 o Atodlen 7 iddi.
(**ch**) 1993 p.39.

# RHAN 2

## Swyddi eraill sy’n anghymhwyso

Archwilydd a benodwyd o dan adran 13(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**a**);

Archwilydd Achosion Annibynnol dros yr Adran Gwaith a Phensiynau;

Archwilydd Cyffredinol Cymru ac aelodau o’i staff;

Cadeirydd a chyfarwyddwr anweithredol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol y mae pob un o'i hysbytai, ei sefydliadau neu ei chyfleusterau eraill, neu rai ohonynt, yng Nghymru;

Cadeirydd a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Cyngor Prydeinig;

Cadeirydd a dirprwy gadeirydd Bwrdd Apelau'r Gwasanaeth Sifil;

Cadeirydd a Phrif Weithredwr Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau neu Gyfarwyddwr neu Gomisiynydd y Comisiwn hwnnw a benodwyd gan Brif Weinidog Cymru;

Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Bwrdd Strategaeth Technoleg;

Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Student Loans Company Limited;

Cadeirydd ac aelodau Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd;

Cadeirydd ac aelodau’r Sefydliad Rheoli Morol;

Cadeirydd ac is-gadeirydd y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy;

Cadeirydd Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n cyflawni swyddogaethau yn rhannol neu'n gyfan gwbl mewn cysylltiad â Chymru ac unrhyw aelod o'r cyfryw Awdurdod nad yw hefyd yn gyflogai i'r Awdurdod hwnnw;

Cadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol dros ardal yng Nghymru ac unrhyw aelod o'r cyfryw Fwrdd nad yw hefyd yn gyflogai i'r Bwrdd hwnnw;

Cadeirydd Panel y Cynllun Sicrwydd Cig Eidion;

Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru;

Cadeirydd y Cyngor Teithwyr ac unrhyw aelod arall o'r Cyngor hwnnw sy'n cael tâl cydnabyddiaeth;

Y Comisiynwyr Coedwigaeth ac aelodau o'u staff;

Comisiynydd a Chomisiynydd cynorthwyol  y Comisiwn Ffiniau i Gymru;

Comisiynydd a Chomisiynydd cynorthwyol  y Comisiwn Ffiniau i Loegr;

Comisiynydd a Chomisiynydd cynorthwyol  y Comisiwn Ffiniau i Ogledd Iwerddon;

---

(**a**) 2004 p.23.

Comisiynydd a Chomisiynydd cynorthwyol y Comisiwn Ffiniau i'r Alban;

Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd;

Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus;

Comisiynydd Plant Cymru neu Children’s Commissioner for Wales , y Dirprwy Gomisiynydd Plant ac aelodau o'i staff;

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru neu Commissioner for Older People in Wales, y Dirprwy Gomisiynydd ac aelodau o'i staff;

Y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth;

Comisiynydd y Gronfa Gymdeithasol;

Comisiynydd y Gwasanaeth Sifil;

Cyfarwyddwr Cwmni Cyhoeddus Cyfyngedig Cyllid Cymru neu unrhyw is-gwmni ym mherchenogaeth lwyr Cwmni Cyhoeddus Cyfyngedig Cyllid Cymru;

Cyfarwyddwr cwmni Swyddfa'r Post (o fewn ystyr Rhan 4 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000(**a**)) sef cyfarwyddwr a enwebwyd neu a benodwyd gan un o Weinidogion y Goron neu berson sy'n gweithredu ar ran y Goron;

Cyfarwyddwr The Pensions Advisory Service Limited;

Gweinyddwr Annibynnol Cwynion Dŵr Daear a benodwyd o dan adran 21 o Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 a pharagraff 27 o Atodlen 7 iddi(**b**);

Llysgennad neu Gynrychiolydd Parhaol i gorff rhyngwladol sy'n cynrychioli Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig;

Llywodraethwr neu Weinyddwr tiriogaeth dramor Brydeinig o fewn ystyr adran 50(1) o Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981(**c**);

Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, neu aelod o banel o bersonau a benodwyd i weithredu fel cadeirydd neu aelod arall o'r Tribiwnlys hwnnw;

Ombwdsmon ar gyfer Bwrdd y Gronfa Diogelu Pensiynau a benodwyd o dan adran 209 o Ddeddf Pensiynau 2004(**ch**) ac unrhyw ddirprwy i'r Ombwdsmon hwnnw a benodwyd o dan adran 210 o’r Ddeddf honno;

Yr Ombwdsmon Pensiynau a benodwyd o dan adran 145 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993(**d**) ac unrhyw ddirprwy i'r Ombwdsmon hwnnw a benodwyd o dan adran 145A o’r Ddeddf honno;

Person a benodwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**dd**);

---

(**a**) 2000 p.26.
(**b**) 1993 p.42. Bu diwygiadau i baragraff 27 o Atodlen 7 i’r Ddeddf nad ydynt yn berthnasol i’r Gorchymyn hwn.
(**c**) 1981 p.61, fel y'i diwygiwyd gan adran 1(1) o Ddeddf Tiriogaethau Tramor Prydain 2002 (p.8).
(**ch**) 2004 p.35. Bu diwygiadau i adran 210 o’r Ddeddf nad ydynt yn berthnasol i’r Gorchymyn hwn.
(**d**) 1993 p.48. Bu diwygiadau i adran 145 o’r Ddeddf nad ydynt yn berthnasol i’r Gorchymyn hwn.
(**dd**) 1989 p.42. Gwnaed diwygiadau perthnasol i adran 3 o’r Ddeddf gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p.28), adrannau 202(1)(a), (c) a (d) a 241 a Rhan 15 o Atodlen 18 i’r Ddeddf honno; Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (p.20), adran 30(1) a (3)(c), adran 146(1) a Rhan 1 o Atodlen 7 i’r Ddeddf honno. Gelwir y person a benodwyd felly yn Ddyfarnwr Annibynnol Awdurdodau Lleol Cymru.

Person sy'n dal swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol o fewn ystyr Rhan I o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**a**), a hynny o dan—

(a) awdurdod lleol yng Nghymru, o fewn ystyr y Rhan honno,

(b) Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru neu Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales;

Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol;

Swyddog ardystio ac unrhyw swyddog ardystio cynorthwyol a chanddo swyddogaethau o dan Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992(**b**);

Swyddog canlyniadau ar gyfer un o etholaethau neu un o ranbarthau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

Uchel Gomisiynydd sy'n cynrychioli Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig;

Ymddiriedolwr y Gronfa Byw'n Annibynnol (2006).

---

(**a**) 1989 p.42.
(**b**) 1992 p.52.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi'r personau sydd wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r cyrff a'r swyddi wedi eu disgrifio yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu'r Gorchymyn blaenorol a wnaed yn 2006.